

**Arolygiad o Bractis
Deintyddol Cyffredinol
[Â rhybudd]
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel
Dda, **Practis Deintyddol
Avenue Villa****

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	9
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	15
6.	Camau nesaf.....	17

1. Cyflwyniad

Ar 11 Tachwedd 2014, cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd ar Bractis Deintyddol Avenue Villa yn Heol y Frenhines Victoria, Llanelli, SA15 2TP yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheoli ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau gan AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod mor dda y mae practisau'n bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*¹.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle

¹Daeth *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru* i rym ar y 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.

www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis

Ar ddiwedd pob arolygiad, darperir trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Caiff canfyddiadau o'r math hwn eu manylu, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, o fewn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferwyd yn y sefydliad yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Avenue Villa yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Llanelli yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r practis yn ffurfio rhan o ystod o wasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pum deintydd, un glanweithydd, 11 nyrs, un technegydd labordy a rheolwr practis. Mae'r nyrsys hefyd yn gweithio fel derbynwyr ar batrwm cylch.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deintyddiaeth gyffredinol
- Deintydd sy'n arbenigo mewn mewnbaniadau
- Estheteg yr wyneb
- Gwynnu dannedd
- Hylenydd deintyddol
- Cyswllt mynediad
- Labordy deintyddol

4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae Practis Deintyddol Avenue Villa yn bodloni safonau gofal yn y ddogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon â safon y gofal a ddarperir yn y practis a'u bod yn derbyn gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth. Roedd adborth gan holiaduron cleifion yn gadarnhaol ynglŷn â phob agwedd ar ofal.

Rhoddwyd sicrwydd i ni fod gofal a thriniaethau'n cael eu cynllunio a'u cyflawni'n gyson yn y ffordd a fwriadwyd er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, cawsom sicrwydd bod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol ac effeithlon, a bod systemau cadarn wedi eu sefydlu i sicrhau diogelwch cleifion.

Gall cleifion sy'n defnyddio'r practis a'r staff fod yn hyderus bod yr adeilad yn ddiogel, yn ymddangos fel ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac yn darparu amgylchedd cyfforddus i gleifion dderbyn triniaeth.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon â safon y gofal a ddarperir iddynt yn y practis a'u bod yn derbyn gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth. Roedd adborth gan holiaduron cleifion yn gadarnhaol ynglŷn â phob agwedd ar ofal.

Yn ystod yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion mewn ymgais i geisio barn ynglŷn â'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Yn ogystal, siaradwyd â nifer fach o gleifion a oedd yn derbyn triniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad (pedwar o bobl).

Dychwelwyd un ar bymtheg o holiaduron. Roedd y cleifion a gwblhaodd yr holiaduron yn ogystal â'r bobl y siaradwyd â hwy wedi bod yn defnyddio'r gwasanaeth ers rhwng dwy a 60 mlynedd. Nododd pob un ohonynt (20 o bobl) bod tîm staff y practis yn rhoi croeso iddynt bob amser, gan wneud sylwadau megis:

"Bob amser yn gwrtais a chroesawgar iawn"

"Cyfeillgar a chroesawgar"

"Mae tîm staff y practis yn rhoi croeso i mi bob amser"

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn credu eu bod yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'u gofal, a dim ond un yn nodi nad oedd digon o wybodaeth am driniaethau ar gael. Roedd y claf hwn yn credu y rhoddwyd "diagnosis anghyson" o ganlyniad i wahaniaeth barn. Datgelodd archwiliad o sampl o gofnodion cleifion a sgysiau gyda phedwar o'r deintyddion ffyrdd cyson o weithio. Cadarnhaodd pob deintydd y trafodir opsiynau triniaethau gyda'r cleifion ar ôl ymgynghoriadau. Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelwyd y caiff y nodiadau i gyd eu diweddarau ar ôl pob ymweliad yn y mwyafrif o achosion, gan nodi manylion y driniaeth a roddwyd, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod cleifion yn derbyn cynllun triniaeth i fynd gyda hwy a'i ddarllen.

Wrth ystyried yr holl ymatebion i'r cwestiwn ynglŷn â sut i gael mynediad at y gwasanaeth y tu allan i oriau, gwelwyd na fyddai'r cleifion yn gwybod sut i gael gafael ar ofal pan fyddai'r practis ar gau. Esboniodd y staff bod nodyn wedi'i lamineiddio yn cael ei osod ar ffenestr yn y practis bob gyda'r nos gyda manylion cyswllt perthnasol mewn argyfwng wedi'i nodi arno. Dywedodd rheolwr y practis y gallai cleifion preifat cysylltu â'r deintydd ar alwad trwy adael

neges ffôn ar beiriant ateb y practis neu drwy ffonio'r rhif cyswllt ar yr arwydd yn y ffenestr, tra gall cleifion y GIG ffonio Galw Iechyd Cymru. Roedd rhif yr olaf hefyd ar beiriant ateb y practis ac ar yr arwydd yn y ffenestr.

Roedd system apwyntiad hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Golygai hyn y gallai cleifion fod yn hyderus bod system ar waith i geisio sicrhau eu bod yn cael eu gweld yn gyflym pan fo angen. Nododd pymtheg o gleifion eu bod yn fodlon ar y system hon ac nad oeddynt wedi profi oedi wrth drefnu amser apwyntiad. Dywedodd pump o gleifion eu bod wedi profi oedi, ond ychwanegwyd sylwadau megis:

“Yn anaml iawn”

“Ychydig o oedi derbynol”

“Apwyntiadau blaenorol yn rhedeg dros amser”

Roedd arwydd clir o flaen y safle yn nodi amseroedd agor y practis.

Gellid gweld proses gwyno ar wal y dderbynfa ar y llawr gwaelod. Trafodwyd hyn gyda rheolwr y practis, a gwelwyd nad oedd y broses yn gwbl gyson â chanllawiau Gweithio i Wella². Cadarnhaodd rheolwr y practis y byddai hyn yn derbyn sylw cyn gynted â phosibl. Nodwyd hefyd nad oedd cyfeiriad AGIC ar boster y broses gwyno; fodd bynnag, cafodd hyn ei gywiro yn ystod yr arolygiad. Pan ofynnwyd i gleifion a fyddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu godi pryder, dim ond hanner ohonynt a ddywedodd y byddent yn gwybod. Fodd bynnag, roedd taflen wybodaeth ar gael a oedd yn rhoi gwybodaeth berthnasol ynghylch y practis, gan gynnwys sut i godi pryder (cwyn).

Pan holwyd ynghylch eu barn ar y gwasanaeth a dderbyniwyd yn gyffredinol, dywedodd y cleifion eu bod yn fodlon, gan wneud sylwadau megis: *“staff derbynfa cymwynasgar iawn, deintyddfa lân a chyfeillgar”, “rydw i wedi bod gyda'r practis hwn ers i mi fod yn 13 blwydd oed, gan deithio chwe milltir ar drên a char. Rydw i bellach yn 72 oed!”, “Rydw i wedi cael gwasanaeth a thriniaeth ardderchog bob amser gan y deintydd a'r staff fel ei gilydd” a “bodlon iawn”*.

Yn ogystal â'r cwestiynau a ofynnwyd, gwnaeth un claf arsylwad personol ac awgrym i wella'r gwasanaeth a oedd yn cynnwys:

²Mae Gweithio i Wella yn disgrifio'r prosesau integredig ar gyfer codi, ymchwilio a dysgu o bryderon (cwynion). Mae pryderon yn faterion sydd wedi eu nodi yn sgil digwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff GIG Cymru, honiadau ynglŷn â gwasanaethau a ddarperir gan gorff sy'n gyfrifol yng Nghymru.

“Gellid cau drws yr ystafell driniaeth gan nad oedd yn breifat. Gallwn glywed sgysiau rhwng deintydd/claf a thriniaethau deintyddol. Nid wyf o'r farn bod hyn yn arfer da gan fod diffyg preifatrwydd/cyfrinachedd.”

Dywedodd aelodau'r staff y byddai trefniadau wedi eu sefydlu i gleifion â phroblemau symudedd gael eu gweld yn un o'r deintyddfeydd ar y llawr gwaelod.

Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Rhodddwyd sicrwydd i ni fod gofal a thriniaethau'n cael eu cynllunio a'u cyflawni'n gyson yn y ffordd a fwriadwyd er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Cofnodion Cleifion

Cedwir cofnodion yn y practis ar gronfa ddata gyfrifiadurol, gyda pheth gwybodaeth yn cael ei chadw ar bapur. Wrth archwilio sampl o 16 cofnod deintyddol (h.y. pedwar cofnod cleifion ar gyfer pob deintydd sy'n gweithio yn y practis), gwelwyd bod anghenion y cleifion yn cael eu hasesu, a bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cofnodi'n drylwyr. Roedd y wybodaeth ddiweddaraf o ran cyflwr meddygol wedi'i nodi ym mhob cofnod cleifion. Roedd pob un ohonynt yn cynnwys hanes deintyddol a chymdeithasol blaenorol wedi eu cofnodi. O ran cynlluniau triniaeth, gwelwyd bod anghysondebau rhwng y deintyddion, a bod dau ohonynt bob amser yn cynnwys tystiolaeth o gynllunio, un ohonynt yn gwneud hynny weithiau ac un ohonynt yn darparu dim tystiolaeth. Trafodwyd hyn gyda'r deintyddion yn unigol. Roedd y mater yn debyg o ran cydsyniad i driniaeth; fodd bynnag, cawsant i gyd eu gweld o fewn canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).³

Pan fo cleifion wedi derbyn radiograffau (pelydrau-x), gwelwyd tystiolaeth o werthusiad clinigol o'r pelydr-x er mwyn sicrhau bod ansawdd y llun yn ddigonol. Cynhaliwyd archwiliadau misol o'r gwerthusiadau hefyd. Mae hyn yn fodd i sicrhau bod y practis yn ddiogel ac effeithiol.

Trafodwyd ansawdd y cofnodi gyda'r deintyddion. Ar y cyfan, gwelwyd bod y systemau hanfodol sylfaenol wedi eu sefydlu, ond nid oedd digon o fanylion yn y nodiadau o ran dewisiadau/rhesymau dros fynychu a chydsynio. Roedd y deintyddion yn barod iawn i dderbyn yr arsylwadau hyn, ac mae rheolwr y practis wedi trefnu i ddiweddarau'r system electronig er mwyn gallu cymryd nodiadau'n well yn unol â'r arfer gorau.

³Mae canllawiau clinigol deintyddol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn cynorthwyo clinigwyr i bennu cyfnodau ail-alw rhwng adolygiadau iechyd geneuol sy'n briodol i anghenion unigol cleifion.

Argymhelliad

Mae'n rhaid cadw cofnod o gydsyniad i driniaeth a chynlluniau gofal a thriniaeth y cytunir arnynt o dan Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Cadw cyffuriau ac offer brys

Wrth archwilio'r modd y cedwir cyffuriau brys yn y practis, gwelwyd eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel. Gwelwyd hefyd bod trefniadau addas wedi eu sefydlu i sicrhau bod cyffuriau lle mae'r dyddiad wedi dod i ben yn cael eu newid yn ddi-oed.

Roedd swyddog cymorth cyntaf penodol ar gael, ac roedd y pecyn cymorth cyntaf yn cael ei gadw o fewn cyrraedd hawdd. Roedd y cyfarpar gofynnol mewn achos o argyfwng ar gael, ac roedd rhai eitemau wedi eu storio ym mhob ystafell driniaeth yn ogystal ag yn y pecyn cymorth cyntaf.

Dadheintio

Gwnaethom edrych ar y gweithdrefnau oedd wedi eu sefydlu yn ymwneud â dadheintio offer a chanfod bod camau priodol wedi eu sefydlu, ond nad oedd ystafell ddadheintio benodol ar gael. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod hyn wedi'i drafod, ond roedd y diffyg lle priodol yn achosi problemau. Nid oedd hyn yn atal y broses, a gwelwyd tystiolaeth o gadw cofnodion, ardaloedd pendant wedi eu diffinio, cofnod dilysiad ar gyfer pob cylchred golchi, cynllun i ddefnyddio diheintyddion i lanhau a diheintio darnau dwylo, a defnydd o gyfarpar glanhau penodol ym mhob ystafell driniaeth.

Roedd yr hylenydd deintyddol a oedd yn defnyddio ystafell driniaeth wag i olchi a sterileiddio'r cyfarpar yn eithriad. Nodwyd bod dau hambwrdd ar gael i gludo'r cyfarpar (un ar gyfer cyfarpar a oedd wedi eu defnyddio ac un ar gyfer rhai glân), ond dim ond un ohonynt oedd yn gloadwy. Cadarnhaodd rheolwr y practis eu bod yn cynnal archwiliadau (gwiriadau) chwarterol rheolaidd yn ymwneud â gofynion rheoli heintiau, yn unol â'r ddogfen Memorandwm

Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) ⁴. Roedd cyfleusterau golchi dwylo penodol ar gael mewn mannau allweddol o adeilad y practis.

Argymhelliad

Argymhellir bod y ddau hambwrdd a ddefnyddir ar gyfer cario teclynnau yn glodwy.

⁴<http://wales.gov.uk/topics/health/cmo/professionals/dental/publication/cdo-letters/decontamination2/?lang=cy>. Mae'r ddogfen WHTM 01-5 yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ynghylch dadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Cyfarpar radiograffeg

Ni nodwyd unrhyw argymhellion ynglŷn â'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd. Roedd cynghorydd amddiffyn rhag ymbelydredd penodol ar gael, nodi a diffinio ardaloedd rheoledig, cofnod o ymchwiliad i faint o ddos i'w roi, a system sicrhau ansawdd o ran ansawdd y lluniau. Gwelwyd tystysgrif archwiliad o'r cyfarpar radiograffeg hefyd.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ar ddiwrnod yr arolygiad, cawsom sicrwydd bod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol ac effeithlon, a bod systemau cadarn wedi eu sefydlu i sicrhau diogelwch cleifion.

Mae'r practis yn darparu gofal a thriniaeth ddeintyddol breifat yn bennaf, gyda rhai eithriadau pan fo'r ddarpariaeth ar gael i gleifion y GIG trwy'r bwrdd iechyd lleol. Ar adeg ein harolygiad, roedd rheolwr practis profiadol yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd.

Ym mis Rhagfyr 2013, cafodd y practis ei gymryd drosodd gan ddarparwr gofal deintyddol newydd. Fel rhan o'r broses feddiannu hon, cafodd adeilad y practis ei adnewyddu, cafodd polisiau newydd eu cyflwyno, a throsglwyddwyd y staff ar y pryd i gontractau newydd. Dywedodd rheolwr y practis fod y trawsnewidiad wedi bod yn ddiraferth a chafwyd digon o gefnogaeth. Gwelwyd bod y practis yn cael ei redeg yn dda a bod y gwasanaeth yn cael ei gynnal gan bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol i sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel. Roedd y staff yn gallu cael mynediad at y polisiau hyn o fewn y practis er mwyn gwirio eu bod yn deall a sicrhau eu bod yn cymryd y camau gweithredu cywir. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd dyddiadau adolygu wedi eu nodi ar y polisiau newydd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol.

Argymhelliad

Mae'n rhaid i'r polisiau a'r gweithdrefnau gydymffurfio â deddfwriaeth Cymru ac arferion gorau, gan nodi'r dyddiad arnynt er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn credu eu bod yn cael digon o gefnogaeth gan reolwr y practis ac y byddent yn gyfforddus i godi unrhyw bryder a allai fod ganddynt yn ymwneud â'r gwaith. Roedd tystiolaeth o waith tîm cydlynus ac effeithiol.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion hyfforddiant staff. Roedd y rhain yn cadarnhau bod ystod o gyfleoedd hyfforddi perthnasol i'w swyddogaeth ar gael i'r staff.

Ar adeg ein harolygiad, roedd pob aelod o'r staff yn meddu ar dystysgrif ddilys y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, sy'n ofynnol dan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat⁵.

Roedd system wedi'i sefydlu yn y practis i asesu barn cleifion yn rheolaidd a gweithredu arni. Mae hyn yn sicrhau bod y practis yn cynnig gwasanaeth sy'n bodloni anghenion y cleifion ac yn gwella'r gwasanaeth yn unol â barn y cleifion.

Gwelwyd bod tîm staff wedi'i hen sefydlu ar gael; roedd rhai ohonynt wedi gweithio yn y practis am flynyddoedd lawer. Bu trosiant bach o ddeintyddion (dau) dros y ddwy flynedd flaenorol, ond ar y cyfan, nid oedd hyn wedi effeithio ar ansawdd y gwasanaeth a ddarparwyd. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael gofal gan staff sy'n gyfarwydd iddynt.

Dywedodd rheolwr y practis fod pob aelod o'r staff yn mynychu cyfarfodydd staff misol rheolaidd, ac roedd cofnodion o'r cyfarfodydd staff yn cadarnhau hyn. Roedd hyn yn gyfle i godi unrhyw bryderon ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir, cyfleu gwybodaeth newydd/berthnasol i'r tîm deintyddol, a thrafod canlyniadau o holiaduron cleifion ac archwiliadau. Roedd hyn yn dangos ei fod yn bractis blaengar sy'n derbyn beirniadaeth ac yn gwella o wersi a ddysgwyd.

O edrych ar amrywiol dystysgrifau cynnal oedd yn y practis, gwelwyd bod systemau addas a phrosesau rheoli wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau bod pob cyfarpar yn cael ei archwilio yn amserol ac yn unol â gofynion gorfodol.

Dywedodd y staff wrthym fod unigolyn penodedig ar gyfer cymorth cyntaf, swyddog tân, iechyd a diogelwch a dadheintio. Nodwyd bod yr arwydd iechyd a diogelwch ar wal mewn swyddfa yng nghefn yr adeilad i ddechrau, ond yn ystod yr arolygiad ac ar ôl trafod â rheolwr y practis, cafodd ei symud yn ôl i'w le gwreiddiol yn y man aros ar y llawr gwaelod. Mae hyn yn sicrhau bod yr arwydd yn weladwy i'r staff a'r bobl sy'n ymweld â'r safle.

⁵Daeth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 i rym ar 1 Ionawr 2009. Gwnaed newidiadau a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2012. Roedd y rhain yn amlinellu'r gofynion cyfreithiol o ran deintyddion yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat.

Ansawdd yr Amgylchedd

Gall cleifion sy'n defnyddio'r practis a'r staff fod yn hyderus bod yr adeilad yn ddiogel, ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac yn darparu amgylchedd cyfforddus i gleifion dderbyn triniaeth ynddo.

Mae Practis Deintyddol Avenue Villa yn bractis sefydledig wedi'i leoli yng nghanol tref Llanelli. Nid oes maes parcio penodol, ac mae'r lleoedd parcio ar hyd y ffordd ymyl ger y practis yn brin iawn. Fodd bynnag, mae maes parcio aml-lawr o fewn pellter cerdded byr.

Gall cleifion ag anawsterau symudedd fynd i mewn i adeilad y practis. Mae hyn oherwydd bod ychydig o lethr i mewn i'r adeilad yn hytrach na step. Yn ogystal, mae rhai o'r ystafelloedd triniaeth cleifion ar y llawr gwaelod.

Ceir derbynfa ar y llawr gwaelod yn y practis, pedair ystafell driniaeth a dau fan aros sydd wedi eu trefnu dros ddau lawr, labordy deintyddol ar y llawr cyntaf, ac ystafell benodedig ar y llawr gwaelod ar gyfer y glanweithydd deintyddol. O arsylwi yn ystod yr arolygiad, gwelwyd bod maint y manau aros yn briodol ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth.

Roedd taith o gwmpas yr adeilad yn cadarnhau bod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw yn foddhaol, yn fewnol ac yn allanol. Bu rhaglen ailaddurno yn ddiweddar. Roedd toiled ar gael ar y llawr gwaelod, a gallai cleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn gael mynediad ato'n hawdd. Roedd diffoddwyr tân wedi eu gosod mewn manau strategol, ac roeddent wedi cael gwasanaeth yn rheolaidd.

Roedd y manau aros, yr ystafelloedd triniaeth a'r manau cylchredeg yn lân, yn daclus ac wedi eu goleuo a'u hawyru'n foddhaol.

Gwelwyd bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu ar gyfer storio a chadw cofnodion papur ac electronig yn ddiogel, a bod system gorfforaethol wrth gefn a leolir yn ganolog ar gyfer cofnodion electronig. Roedd rhagofalon diogelwch wedi eu sefydlu hefyd i atal mynediad heb awdurdod i fannau yn yr adeilad nad ydynt yn cael eu defnyddio gan gleifion.

Roedd enwau a chymwysterau'r holl ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis wedi eu harddangos yng nghyntedd y practis, ac roedd golau dros y plac fel y gellid ei weld yn y nos. Roedd rhestr o bob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis ar y wefan, a oedd yn cynnwys rhifau eu cofrestrriad a'u swyddogaethau. Dylai hon fod ar gael, ac yn weladwy, yn y safle ar gyfer cleifion nad oes ganddynt fynediad at y wefan.

Argymhelliad

Mae'n rhaid i'r practis arddangos rhestr o'r staff sy'n gweithio yn y practis, eu swyddogaethau, a rhif eu cofrestriad pan fo hynny'n berthnasol.

Roedd contractau ar gael ar gyfer symud gwastraff clinigol a gwastraff nad yw'n beryglus oddi yno, ac roedd y bagiau a'r biniau'n cael eu cadw'n ddiogel. Mae hyn yn fodd i sicrhau amgylchedd diogel i gleifion allu mynd i mewn ac i'r staff weithio.

6. Camau nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwelliannau o ran cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, rheolaeth ac arweinyddiaeth, ac ansawdd yr amgylchedd. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwelliannau ddatgan yn glir pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Avenue Villa yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwelliannau, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses barhaus o arolygu deintyddol.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: **Practis Deintyddol Avenue Villa**

Dyddiad yr Arolygiad: **11 Tachwedd 2014**

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Profiad y Claf				
	Ni wnaed unrhyw argymhelliad ar yr achlysur hwn.			
Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru				
Tud 9	Mae'n rhaid cadw cofnod o gydsyniad i driniaeth a chynlluniau gofal a thriniaeth y cytunir arnynt o dan Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru 2010.	Mae diweddariad newydd i'n system gyfrifiadurol, a argymhellwyd gan adolygydd cymheiriaid y practis deintyddol, wedi'i roi ar waith erbyn hyn.	Angela Messer	Wedi'i gwblhau 14/11/14
Tud 10	Argymhellir bod y ddau hambwrdd a	Prynwyd bocsys cloadwy newydd a chânt eu	Angela Messer	Wedi'i

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	ddefnyddir ar gyfer cario teclynnau yn gloadwy.	defnyddio.		gwblhau 14/11/14
Arweinyddiaeth a Rheolaeth				
Tud 12	Mae'n rhaid i'r polisiâu a'r gweithdrefnau gydymffurfio â Deddfwriaeth Cymru ac Arferion Gorau, gan nodi'r dyddiad arnynt er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol.	Hysbyswyd ein prif swyddfa y dylid nodi'r dyddiad presennol a'r dyddiad adolygu ar bob polisi sy'n cael ei weithredu ganddynt yn y dyfodol.	Angela Messer	Wedi'i gwblhau 12/11/14
Ansawdd yr Amgylchedd				
Tud 15	Mae'n rhaid i'r practis arddangos rhestr o bob aelod o staff sy'n gweithio yn y practis, eu swyddogaeth a rhif eu cofrestrriad pan fo hynny'n berthnasol.	Mae rhestr lawn o'r staff, gan gynnwys eu swyddogaethau a'u rhifau Cyngor Deintyddol Cyffredinol, wedi'i harddangos ar hysbysfwrdd cleifion.	Angela Messer	Wedi'i gwblhau 21/11/14

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (wedi'i brintio): Angela Messer

Teitl: Rheolwr y Practis

Llofnod: a c messer

Dyddiad: 26/11/14